Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
MEDI 2006

DYDDIAD	Nos Fercher, 27ain Medi, 2006
AMSER	7.00yh
LLEOLIAD	Neuadd Rhostryfan
AELODAU YN BRESENNOL	Huw Williams (Cad), Nerys Evans, Meurig Williams, Jason Hunt, Gwilym L.Williams, Elin Evans, Gwilym V.Thomas, Elwyn Jones, Emrys Jones
HEFYD YN BRESENNOL	Bethan Williams (clerc)

1. **Ymddiheuriadau**
   Cyng.Glyn Owen, Neal Williams, Hugh Jones

2. **Croeso**

3. **Datgan Buddiant**
   Dim

4. **Cadarnhau cofnodion**
   Cadarnhawyd y cofnodion o'r cyfarfod diwethaf gynhaliwyd ar nos Fercher, Gorffennaf 19eg, 2006. cJH eNE

5. **Materion i'w trafod:**
   a. Cynllun Uwchgwyrfai – ymateb gan Carwyn Jones AC drwy law Alun Ffred Jones. Fe gafwyd llythyr hefyd gan Gymdeithas Porwyr Uwchgwyrfai yn gofyn wrth y cyngor ceisio ddwyn perswâd ar y Cynulliad i fynd ymlaen ar fyrder efo'r gwaith ffensio ar y comin. Penderfynwyd anfon llythyr i adran gynllunio'r Cynulliad gyda chopi at Alun Ffred Jones a Hywel Williams.
   b. Cronfa Gwella Gwynedd – eglurodd y clerc ei bod yn anffodus fod y cyngor cymuned wedi methu cario 'mlaen efo'r cynllun i glirio llwybr tu cefn i Bro Gilbert oherwydd problemau perchnogaeth tir. Penderfynwyd gofyn am gyngor cyfreithiol i geisio mynd ymlaen i brynu'r tir tu cefn i Bro Gilbert a thir yr hen orsaf. Clerc i gysylltu efo twrnai – awgrymwyd Pritchard Jones yng Nghaernarfon fel cyswllt cyntaf, gan eu bod hwythau efo'r wybodaeth gefndirol ynglŷn â'r cwmni rheilffordd.
   c. yDilys Phillips, Cyngor Gwynedd – ymateb i'n cwynion.

c. Cysgodfan Penyffridd – llythyr gan R.Arwel Jones, Penyffridd yn gofyn am gael gosod cysgodfan arall. Rhoddodd y clerc wybod i'r aelodau fod pris wedi dod i law am chwalu'r gysgodfan bresennol, gan Wyn Williams , am £490. Cytunodd pawb y dylai'r gwaith fynd yn ei flaen cyn gynted â phosib. Clerc i drefnu fod cysgodfan newydd i'w archebu gan Macemain Amstad. Clerc hefyd i anfon llythyr cydnabyddiaeth at R.Arwel Jones.
d. Llythyr yn cwyno am or-dyfiant ger Gwelfor, Rhosgadfan. Clerc wedi anfon llythyr at y Cyngor Sir. Wedi cael ymateb gan yr Adran Dai yn nodi fod ein sylwadau wedi'u pasio ymlaen i'r swyddog perthnasol.
e. Rheilffordd Eryri – llythyr ynglŷn â'r gordyfiant ger Dolellog – nodwyd yn eu llythyr fod bwriad ganddynt wneud y gwaith ar ôl y 30ain o fis Medi, sef ar ôl y cyfnod nythu. Aelodau'n amau fod y cyfnod nythu wedi hen ddarfod, clerc i checio'r rheolau ynglŷn â hyn.
f. Llythyr gan Gwyn Lloyd-Griffith, Ymgymerwyr yn datgan fod cwmni proffesiynol wedi archwilio'r bedd cyn y gladdedigaeth dan sylw, a bod digon o le yn y beddrod ar gyfer tri pherson.
g. Ynglŷn â phryniant tir ychwanegol i'r fynwent – clerc i geisio cael arweiniad gan asiant tir, awgrymwyd enw Bill Hastings, Llanrug os nad ydy Charles Medforth yn gallu bod o help pellach.
h. Cyfadran Amgylchedd – ymateb i'n cwynion
i. Llythyr gan Jim Fitzpatrick, DTI, drwy law Hywel Williams AS ynglŷn â dyfodol swyddfeydd post. Nodwyd yn y llythyr fod y gwasanaeth post yn colli busnes yn flynyddol. Roedd yr aelodau'n teimlo mai'r rheswm eu bod yn colli busnes ydy'r ffaith fod gwasanaethau hanfodol yn cael eu symud i lefydd eraill. Clerc i anfon llythyr ar Hywel Williams.
j. Copi o lythyr gan Robert Arwel Jones, Rhosgadfan a anfonwyd at Steffan Jones ynglŷn â chyflwr y ffordd ger fynwent Rhosgadfan. Trafodwyd y broblem gyda Steffan yn y cyfarfod cyhoeddus ar yr 20fed o Fedi – adroddodd y byddai'n ymchwilio ymhellach.

k. Glanaber, Rhostryfan - llythyr gan Steffan Jones yn nodi fod bwriad i weithredu yn unol â'r hyn a gytunwyd yn y cyfarfod ar 8fed Awst (gweler adroddiad eitem 6a). Yn ychwanegol, cafwyd copi o lythyr sydd wedi'i anfon gan Steffan at denantiaid Glanaber yn gofyn wrthynt dorri'r coed yn unol â'r gofynion a drafodwyd. Clerc wedi derbyn galwad ffôn gan deulu'r tenantiaid ar 26ain o Fedi yn nodi eu bod yn cytuno i wneud y gwaith, ac y bydd yn digwydd yn ystod yr wythnosau nesaf.

l. Prisiau ar gyfer sefydlu Safle We i Gyngor Llanwnda – cafwyd tri pris gan y cwmniau canlynol: Delwedd, Cymru1 ac Amalgam8. Penderfynwyd gofyn wrth gwmni Amalgam8 wneud y gwaith, gyda sicrhâd y bydd cytundeb cynnal a chadw mewn grym am o leiaf dair blynedd.

m. Archwilio offer chwarae – cysylltodd y clerc gyda chwmni Sportfix, sy'n arbenigo mewn archwilio offer chwarae plant, ac fe gafwyd pris o £150 am archwiliad blynyddol, dros y dair blynedd nesaf. Cytunwyd i ofyn wrthynt fynd ymlaen â'r gwaith.

n. Problem gyda ysgol farchogaeth yn amharu ar y gymuned. Cafwyd sawl cwŷn ynglŷn â diffyg parch a ddangoswyd mewn un cynhebrwng mawr yng Nghefnfaes yn ystod yr haf. Cafwyd adroddiadau fod y ceffylau wedi creu anhawster mawr i nifer o yrrwyr. Clerc i ysgrifennu i Gyngor Gwynedd eto, gan geisio cael gwybodaeth ynglŷn â'r drwydded.

6. **Derbyn Adroddiadau:**

a) Gor-dyfiant yng ngardd Glanaber, Rhostryfan – cafwyd cyfarfod rhwng cynrychiolydd y tenant, GLW, Geraint Summers, clerc a swyddog priffyrdd Cyngor Gwynedd ar Awst 8fed. Cytunwyd y dylid tynnu'r coed sy'n achosi'r broblem. Cafwyd addewid gan Gyngor Gwynedd y byddant yn rhoi gwybodaeth gyflawn i'r tenant ynglŷn â'r rheolau perthnasol.

(gweler datblygiad pellach 5(l) uchod)

b) Yn dilyn problemau gyda rheolau Mynwent Cefnfaes, roedd y clerc wedi paratoi copi o reolau newydd, i gymryd i ystyriaeth awgrymiadau Bryn Hughes, ac fe benderfynwyd cynnal is-bwyllgor i drafod y mater ymhellach.

c) Cyfarfod cyhoeddus – 20.09.06 – mynychodd Gwyn Parri, Heddlu Gogledd Cymru a Steffan Jones, Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd i drafod unrhyw broblemau yn yr ardal. Roedd yn galonogol iawn gweld cymaint o bobl wedi troi allan ar noson mor ofnadwy. Trafodwyd problemau gor-yrru yn y pentref ac fe geisiodd Steffan Jones ateb cwestiynau ynglŷn â'r cwynion rydym wedi'u hanfon i'r adran. Yn anffodus, nid oedd yn bosib iddo ateb cwestiynau oedd yn berthnasol i adrannau eraill, ond mae wedi gaddo dod nôl i'n cyfarfod ymhen tri mis i roi adroddiad llawn. Cafwyd trafodaeth ynglyn â sut i ddatblygu tir y rheilffordd yn Rhostryfan. Clerc i geisio ymholi ymhellach ynglyn â phryniant y tir.

7. **Is-bwyllgorau:**

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	28,106.21
Cyfri Siec:	165.47
CYFANSWM	**28,271.68**

Angen trefnu is-bwyllgor cyllid, gan fod y clerc wedi gadael rhai anfonebau adref. Ymddiheurodd am y blerwch.

Holl anfonebau i'w talu yn yr is-bwyllgor:
Cyflog/costau clerc – Medi - £473.96
Cyllid y wlad - £90.64
Siôn Owen – clirio llwybrau - £200
Charli Britton – gwaith celf arwyddion - £211.50
Gwilym Ll.Williams – torri gwrychoedd - £352.50
Wyn Williams - £754.00
Shaw's – llyfr mynwent - £159.62
Derbyniadau:
Cyngor Gwynedd – praesept - £7,350.00
Gwariwyd: £2,242.22
GWEDDILL: £26,029.46

Eraill:
Mynwent Hermon Rhosgadfan – oherwydd nad oes ganddynt fantolen gyfredol, nid ydynt mewn sefyllfa i wneud cais am arian tan fis Ionawr.
Llythyr gan Bob Kane, Llanberis yn holi am anfoneb i osod y plac ar safle Capel Tabernacl. Cafwyd anfoneb gan Wyn Williams am £90, felly fe fydd y clerc yn anfonebu Bob Kane am y swm yma.

9. **Materion Cynllunio**

CO6A/0578/24/LL – Hafoty Pen Bryn, Rhosgadfan – addasu adeilad allanol i bwrpas ymwelwyr – dim gwrthwynebiad.

CO6A/0451/24/AM – datblygiad o 24 o dai yn Dinas. Aelodau'n teimlo'n gryf fod y datblygiad yn llawer rhy fawr i'r ardal, gan y bydd yn newid cymeriad y pentref ac nad oes adnoddau yno i dderbyn datblygiad mor fawr. Rhagwelir problemau traffig gan fod safle'r fynedfa i'r datblygiad yn gul iawn. Roedd ein sylwadau blaenorol ar y safle yn nodi fod unrhyw ymgynghoriad sydd wedi'i wneud efo asiantaethau eraill yn nodi cyfanswm o 8 o dai, ac nad oes unrhyw gyfeiriad at 24 o dai mewn unrhyw un o'r ymgynghoriadau rheini. Tybiwn ei bod yn deg disgwyl ymgynghoriad gyda'r holl asiantaethau perthnasol ar y cynllun cyfredol.

Eisoes wedi'i ganiatau:
Libanus, Rhos Isaf – estyniad
Capel Saron – adeiladu toiledau
Bryn Peris, Rhos Isaf – estyniad
Ty'n y Nant, Rhostryfan – cais diwygiedig annedd a modurdy

10. Gohebiaeth:
    a) Cynulliad – adolygiad Beecham o gyflwyno Gwasanaethau Lleol
    b) Cyfadran Amgylchedd – gwerthfawrogiad cymeriad ardal gadwraeth Llanwnda – awgrymu y dylid mynd ymlaen efo'r cynllun cyn belled â bod ymgynghoriad llawn gyda pherchnogion y tai oddi fewn i'r ardal.
    c) Un Llais Cymru – cyfarfod pwyllgor ardal Arfon/Dwyfor (eisoes wedi bod 7.9.06) & cyfarfod cyffredinol blynyddol – 14.10.06 – cynigion i'w trafod
    d) Un Llais Cymru – strategaeth hyfforddiant cenedlaethol-
    e) Cyfadran Adnoddau – sesiwn hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad – angen i'r clerc, cadeirydd a 2 aelod fynychu'r sesiwn ar Hydref 25ain yn swyddfeydd Arfon Gwynedd ar y cyd – cynlluniau newydd
    f) Cynulliad – adroddiad blynyddol y prif weinidog
    g) Gofal a Thrwsio Gwynedd – adroddiad blynyddol Cynulliad – rheoliadau drafft comisiynydd pobl hþn Cymru
    h) Cyfadran Adnoddau – gorchymyn cau lôn yn Rhos Isaf yn ystod mis Gorffennaf/Awst
    i) Cyfadran Datblygu – llyfryn CIST Gwynedd
    j) Cyngor Chwaraeon Cymru – rhaglen gyfalaf cymunedol
    k) Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru – cyfarfodydd grwpiau ymgynghorol
    l) Cyfadran Amgylchedd – priffyrdd – rhaglen waith
    m) Fforwm Gwledig Cymru – adnoddau ar gyfer datblygu cymunedol gwledig
    n) Cymdeithas Tai Eryri – adroddiad blynyddol
    o) Cyngor Gwynedd – datganiad o bolisi gamblo
    p) Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – cynllun drafft lleihau risg
    q) Cyngor Iechyd Cymuned – adroddiad blynyddol
    r) Panel Dyfarnu Cymru – adroddiad blynyddol
    s) Cynulliad – cyfarfod pwyllgor rhanbarth y Gogledd – dydd Gwener, 6ed Hydref – Amlwch
    t) Cynulliad – adroddiad blynyddol y cynllun partneriaeth llywodraeth leol
    u) Cyfadran Datblygu – strategaeth ddrafft adfywio Gwynedd

v) Cynulliad – ymgynghoriad ynglŷn â rhyddhad treth i fusnesau bychain a swyddfeyd post
w) Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru – ariannu'r heddlu i'r dyfodol – gwahoddiad i'r clerc a 2 aelod fynychu cyflwyniad ar y cynllun – 7p.m., 27.11.06 – Siambr Dafydd Orwig, Cyngor Gwynedd
x) Un Llais Cymru/SLCC – holiadur yn ymwneud â chydweithrediad sy'n digwydd rhwng y cynghorau cymuned a'r cynghorau sir
y) Cylchgronnau

11. **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf**
    1. Soniodd EE fod agoriad swyddogol neuadd Llanwnda yn digwydd ddydd Sadwrn yma, 30ain o Fedi a bod croeso i bawb fynychu. Soniodd hefyd y byddai'n syniad i'r cyngor gyfarfod yno bob yn ail mis. Cytunodd pawb. Roedd y clerc eisoes wedi bod mewn cysylltiad â'r swyddogion i geisio cael cyfarfod mis Medi yno, ond nid oedd y neuadd yn barod.
    2. Cynllun Uwchgwyrfai – awgrymodd GVT ein bod yn ysgrifennu at Asiantaeth yr Amgylchedd ym Mangor i geisio cael eu help hwy i bwyso ar y Cynulliad i gael bwrw 'mlaen efo'r gwaith ffensio. Pawb yn cytuno.
    3. ElJ – awgrymu y dylem ofyn wrth y Cyngor Sir gulhau'r ffordd ger Talybont, Rhostryfan drwy greu palmant, ac felly orfodi gyrrwyr i arafu.
    4. EmJ – arwydd 40 yn Ffrwd Cae Du – ddim yn derbyn ymateb swyddogion Cyngor Gwynedd ynglŷn â rheolau yn ymwneud ag arwyddion gorfodaeth

12. **Dyddiad Cyfarfod Nesaf** – 18fed Hydref - i'w gadarnhau